Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | **STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD IAU, 12 TACHWEDD 2020 AM 2.00 O'R GLOCH Y PRYNHAWN** | **THURSDAY, 12 NOVEMBER 2020 AT 2.00 PM** |
| **CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)** | **VIRTUAL MEETING (AT PRESENT, MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Sue Altree (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Parch/Rev Jim Clarke (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mr Gerald Hewitson (Crynwyr Môn/Anglesey Quakers)

**Athrawon/Teachers**

Amanda Earnshaw (Ysgol Cybi), Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Rheinallt Thomas

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

- Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020.

- I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **DIWEDDARIAD GAN YR YMGYNGHORYDD AG I'R CYSAG**

Yr Ymgynghorydd AG i'r CYSAG i roi diweddariad ar y canlynol:-

- Adroddiad Blynyddol CYSAG a'r Cynllun Gweithredu
- Y Cwricwlwm Newydd

4 **CRYNODEB O WEITHGAREDDAU** (Tudalennau 9 - 10)

Yr Ymgynghorydd AG i'r CYSAG i adrodd ar weithgareddau diweddar.

5 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Derbyn diweddariad gan Mr Rheinallt Thomas, aelod cyfetholedig CYSAG, ynglŷn â chyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020.

6 **CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ar ddydd Mawrth, 16 Chwefror 2021.

7 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A (categori 16) y Ddeddf."

8 **GOHEBIAETH**

I ystyried cais i aelod o'r Grŵp Dyneiddwyr lleol gael ymuno â CYSAG Môn.

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery, Alun Roberts |
| | **Yr Enwadau Crefyddol** |
| | Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru) |
| | **Cynrychiolwyr Athrawon** |
| | Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)<br>Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Llesiant, Addysg) (Ymgynghorydd AG i'r CYSAG)<br>Mrs Helen Bebb (Ysgol David Hughes, Porthaethwy) (Aelod o Banel Gweithredol CYSAG Ysgolion)<br>Mrs Margaret Peters (Swyddog Prosiect Cefnogi Busnes Ysgolion) (Clerc y CYSAG)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes<br>Parch. Jim Clarke (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)<br>Mr Gerald Hewitson (Y Crynwyr)<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)<br>Mrs Amanda Earnshaw (Ysgol Cybi) |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r

CYSAG a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

- Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Aled Morris Jones wedi cael ei benodi'n aelod o'r CYSAG.
- Cadarnhawyd bod y Parch. Jim Clarke mewn cysylltiad â'r Eglwys Bresbyteraidd er mwyn i'r Eglwys enwebu cynrychiolydd i'r CYSAG.
- Adroddodd y Cadeirydd fod yr Eglwys Fethodistaidd wedi enwebu'r Parch. Sue Altree fel cynrychiolydd ar y CYSAG, a derbyniodd y CYSAG yr enwebiad.
- Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cynghorwyr Gwilym O Jones ac Alun Mummery eu bod wedi ymweld ag ysgolion lleol i arsylwi Addoli ar y Cyd.

Cafwyd adroddiad llawn gwybodaeth gan y Cynghorydd Gwilym O Jones yn dilyn ei ymweliad ag Ysgol Kingsland, Caergybi pan yr arsylwodd y gwasanaeth boreol yn yr ysgol. Dywedodd mai thema'r sesiwn Addoli ar y Cyd oedd cyfeillgarwch, gyda phwyslais ar ofalu. Dywedodd bod y gwasanaeth yn un ardderchog, a'i fod yn codi ymwybyddiaeth am werthoedd, ystyr a phwrpas ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion adlewyrchu ar ddigwyddiadau a oedd yn cael effaith ar yr ysgol a'r gymuned leol.

Adroddodd y Cynghorydd Alun Mummery iddo fynychu sesiwn Addoli ar y Cyd yn Ysgol Llanfairpwll a'r thema oedd tŷ ar y bryn a thŷ ar y tywod. Dywedodd fod ei ymweliad yn un pleserus iawn, a gwelodd y disgyblion yn ymateb yn dda yn yr ysgol gan ddangos fod ganddynt sylfaen gadarn mewn Addysg Grefyddol.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu sesiwn Addoli ar y Cyd yn Ysgol y Talwrn, a'i bod yn sesiwn ardderchog. Roedd y disgyblion yn dathlu'r ŵyl Hindŵ, Diwali, ac yn darllen straeon o'r Beibl.

Anogodd y Cadeirydd aelodau'r CYSAG i fynychu sesiynau Addoli ar y Cyd mewn ysgolion. Cadarnhaodd y Cynghorydd Alun Roberts ei fod wedi trefnu i arsylwi sesiwn Addoli ar y Cyd yn Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch.

- Nodwyd bod yr Ymgynghorydd AG a chynrychiolwyr CYSAGau eraill wedi codi'r broblem o anghysondeb rhwng papurau arholiad a'r llwyth gwaith yn y Maes Llafur Cytûn AG o gymharu â phynciau eraill yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn Aberaeron. Adroddwyd fod CBAC yn gwrthod cydnabod y broblem o hyd. Mewn perthynas â diffyg adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, rhannwyd e-byst gydag athrawon er mwyn rhannu adnoddau a syniadau.

Adroddodd cynrychiolwyr athrawon y CYSAG fod niferoedd disgyblion wedi gostwng yn sylweddol mewn AG ar lefel TGAU oherwydd y llwyth gwaith. Adroddwyd fod nifer y disgyblion sy'n astudio TGAU wedi gostwng o rhwng 50 a 60 o ddisgyblion yn y gorffennol i 18 mewn un ysgol eleni. Nodwyd fod disgyblion yn trafod y pwnc gyda'i gilydd ac yn cyfleu'r neges fod y maes llafur AG yn rhy drwm o gymharu â phynciau eraill.

Mynegodd aelodau'r CYSAG bryder bod llai o ddisgyblion yn astudio AG. Nodwyd bod y CYSAG wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru ddwy flynedd yn ôl ynghylch llwyth gwaith AG. Hyd yma, ni dderbyniwyd ymateb gan

CBAC.

**PENDERFYNWYD gofyn i Mr Rheinallt Thomas godi pryderon y CYSAG unwaith eto yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru ynghylch y Maes Llafur Cytûn AG ar gyfer TGAU, gan na fu ymdrechion blaenorol yn llwyddiannus.**

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AR GYFER 2018/19

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2018/19 i'r CYSAG ei fabwysiadu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd AG a Chlerc y CYSAG am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, a fabwysiadwyd gan y CYSAG, yn amodol ar wneud mân newidiadau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn yr adroddiad a gyflwynwyd a mabwysiadu Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2018/19.**
- **Bod copi terfynol o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2018/19 yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru, er gwybodaeth.**

## 4. PANEL GWEITHREDOL CYSAG YSGOLION – CYLCH GORCHWYL A CHYNLLUN GWEITHREDU 2020/22

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG bod Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion wedi cael ei sefydlu i gynorthwyo'r CYSAG i fonitro AG mewn ysgolion. Mae saith o gynrychiolwyr athrawon o'r sector cynradd ac uwchradd yn aelodau o'r Panel, ac mae tri ohonynt yn aelodau o'r CYSAG. Mae'r Ymgynghorydd AG yn edrych a oes modd i ddau aelod o'r Panel o'r sector cynradd, Mr Rhys Hearn a Ms Elin Owen, fod yn gynrychiolwyr athrawon (nad ydynt yn cynrychioli eglwys) ar y CYSAG.

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl a Chynllun Gweithredu'r Panel ar gyfer 2020/22 i'r CYSAG eu hystyried.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p'un a ddylai'r Panel adolygu adroddiadau hunan arfarnu ysgolion, ac yna adrodd yn ôl i'r CYSAG. Cytunodd y CYSAG â'r cynnig hwn.

Nodwyd mai rôl y Panel yw annog ysgolion i rannu arfer dda ymysg ei gilydd, a thrwy hynny godi proffil y CYSAG a'r Panel mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni rôl monitro. Bydd yr Ymgynghorydd AG a Chlerc y CYSAG yn darparu canllawiau i'r Panel ac yn cyflwyno gwybodaeth newydd a diweddariadau gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, Llywodraeth Cymru, Estyn, ac adroddiadau hunan arfarnu ysgolion.

Cytunodd y CYSAG fod cyfraniad y Panel yn gam cadarnhaol i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y CYSAG o'r gwaith a wneir mewn ysgolion a bydd yn rhoi cipolwg ar yr hyn sy'n digwydd rhwng cyfarfodydd, yn arbennig mewn

perthynas â'r cwricwlwm newydd. Adroddodd yr Ymgynghorydd AG ei bod wedi llwyddo i gael cyllid i ryddhau'r cynrychiolwyr athrawon ar y Panel o'u dyletswyddau.

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG bod cyfarfod cyntaf y Panel wedi canolbwyntio ar AG a'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Panel ym mis Mawrth, pan fydd y Panel yn adolygu'r Fframwaith AG newydd ac adroddiadau hunan arfarnu ysgolion, ac yn adrodd yn ôl i'r CYSAG ynghylch eu canfyddiadau.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr angen i athrawon gael parhad wrth bontio rhwng y sector cynradd a'r uwchradd. Gan fod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn berthnasol i ddisgyblion o 3 i 16 oed, mae angen i athrawon ysgolion uwchradd fod yn ymwybodol o lefel y gwaith a gwblhawyd yn yr ysgolion cynradd. Nodwyd bod cyfathrebu da yn hanfodol rhwng staff fydd yn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Nodwyd fod gan Ysgol Gatholig y Santes Fair, Caergybi broses adrodd wahanol ar gyfer AG ac nid yw'n cael ei chynrychioli yn y Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion. Awgrymwyd bod Clerc y CYSAG yn cysylltu â'r Pennaeth, Mr Richard Jones, i ofyn a fyddai'n ystyried bod yn aelod o'r Panel.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn Cylch Gorchwyl y Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion fel y'u cyflwynwyd.**
- **Cytuno fod y Panel Gweithredol yn adolygu adroddiadau hunan arfarnu ysgolion, ac yn cyflwyno ei sylwadau i'r CYSAG.**
- **Bod Clerc y CYSAG yn ysgrifennu at Mr Richard Jones, Pennaeth Ysgol Santes Fair, Caergybi i'w wahodd i ymuno â'r Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion.**

Rhannwyd copïau o Gynllun Gweithredu'r CYSAG yn y cyfarfod. Adroddodd yr Ymgynghorydd AG y bydd y Cynllun Gweithredu yn rhan o Gynllun Busnes yr Adran Addysg, ac y bydd yn cael ei fonitro. Mewn perthynas â'r tair blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Bydd angen i'r Panel sefydlu a yw pob ysgol yn cymryd rhan mewn AG ac Addoli ar y Cyd.
- Bydd y Panel yn esgor ar newidiadau cadarnhaol drwy drafod materion AG o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau ac Iechyd a Llesiant fel rhan o'r cwricwlwm newydd, yn unol â fframwaith AG cryf.
- Nodwyd fod athrawon uwchradd yn hyddysg mewn AG, a gallant gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd gyda mwy o hyder wrth gydweithio gyda'r sector cynradd.
- Awgrymwyd creu llwyfan i rannu arfer dda ac adnoddau mewn AG ac addoli ar y cyd o fewn Addysg Môn.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr argymhellion yng Nghynllun Gweithredu drafft y CYSAG ar gyfer 2020-2022.**

## 5. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynwyd adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd yn Ysgol Goronwy Owen, Benllech ac Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu i'r CYSAG eu hystyried.

Cadarnhaodd Clerc y CYSAG fod safonau yn dda yn y ddwy ysgol, ac nad oedd unrhyw broblemau wedi codi.

Adroddodd Clerc y CYSAG fod Ysgol Goronwy Owen yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus, a bod disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr cydwybodol a hyderus sydd â sgiliau da o ran gweithi'n annibynnol.

Mae adroddiad arolygiad Estyn ar gyfer Ysgol Rhyd y Llan yn datgan fod disgyblion yn ymwneud yn dda â'i gilydd ac yn parchu safbwyntiau ei gilydd. Mae gan ddisgyblion agwedd bositif at eu gwaith ac mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn. Mae staff yn creu ethos gofalgar, hapus a chynhwysol yn yr ysgol, ac mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella gan Estyn ar gyfer y ddwy ysgol, a bydd yr ysgolion yn llunio Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau arolygu Estyn.**

## 6. ADRODDIADAU HUNAN ARFARNU YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiadau hunan arfarnu gan Ysgol y Fali ac Ysgol Rhoscolyn.

Adroddodd Pennaeth Ysgol y Fali fod safonau AG yn dda yn yr ysgol. Dywedodd fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad am eu teimladau, gweithredoedd a'u barn erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd Blwyddyn 5 a 6 yng Nghyfnod Allweddol 2, gall nifer o ddisgyblion esbonio sut mae eu teimladau, gweithredoedd a'u barn effeithio ar eu bywydau.

Mae adroddiad hunan arfarnu Ysgol Rhoscolyn yn datgan fod safonau AG yn foddhaol yn yr ysgol a bod rhai meysydd angen sylw. Esboniodd y Pennaeth fod gan y mwyafrif o ddisgyblion agwedd gadarnhaol ac iach tuag at AG a'u bod yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau am faterion moesol, lles ac ysbrydol. Nodwyd fod safonau addysgu AG a chyfraniad AG at ddatblygiad disgyblion yn gyffredinol dda yn yr ysgol. Nodwyd fod rhywfaint o'r derminoleg yn adroddiad hunan arfarnu Ysgol Rhoscolyn yn anghywir. Awgrymodd y CYSAG fod Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion yn cynnig cefnogaeth i'r ysgol ynghylch y mater.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion hysbysu Ysgol Rhoscolyn am y derminoleg gywir i'w defnyddio mewn adroddiadau hunan arfarnu ysgolion.**

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG, er y derbyniwyd nifer o adroddiadau hunan arfarnu yn ddiweddar, dim ond dau a gyflwynwyd i'r CYSAG er mwyn lleihau'r llwyth gwaith ar y rhaglen. Awgrymodd fod y Panel yn adolygu'r adroddiadau

hunan arfarnu ysgolion sy'n weddill ac yn adrodd yn ôl i'r CYSAG gydag enghreifftiau o arfer dda a rhagoriaeth, ac yn hysbysu'r CYSAG am feysydd sydd angen eu gwella o bosib.

Nodwyd y byddai'r fethodoleg hon yn caniatáu i'r CYSAG ganolbwyntio ar feysydd penodol a phwyntiau a godwyd gan y Panel, a'u monitro. Yn flaenorol, pan oedd y CYSAG yn adolygu adroddiadau hunan arfarnu nid oedd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Drwy ddefnyddio arbenigedd y Panel i asesu'r adroddiadau, bydd modd codi pwyntiau da, a rhoi sylw i faterion sydd angen eu gwella.

Codwyd pryderon gan y CYSAG nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi ymatebion ysgolion yn eu hadroddiadau hunan arfarnu, a bod angen cyflwyno mwy o wybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, yn hytrach na thicio bocsys yn unig. Nodwyd y gall y CYSAG gynorthwyo ysgolion i ddatblygu a gwella safonau mewn AG drwy ddadansoddi adborth gan ysgolion. Nodwyd nad oes sicrwydd ar hyn o bryd bod y safonau sy'n cael eu hadrodd yn gywir.

Awgrymodd y Cadeirydd fod y Panel yn cadw at arfer orau drwy Gymdeithas CYSAGau Cymru mewn perthynas â chywirdeb gwybodaeth a gyflwynir mewn adroddiadau hunan arfarnu ysgolion. Awgrymwyd hefyd fod y Panel yn adolygu fformat a naratif adroddiadau hunan arfarnu maes o law.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiadau hunan arfarnu AG ysgolion a gyflwynwyd.**
- **Bod Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion yn adolygu adroddiadau hunan arfarnu ysgolion yn y lle cyntaf ac yn cyflwyno ei sylwadau i'r CYSAG.**
- **Bod y Panel yn cadw at arfer orau drwy Gymdeithas CYSAGau CYMRU, i gadarnhau fod safonau a nodir mewn adroddiadau hunan arfarnu ysgolion yn gywir.**

**7. CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU 2022**

Adroddodd yr Ymgynghorydd AG bod fersiwn drafft o'r Cwricwlwm newydd i Gymru 2022 wedi cael ei gyhoeddi, ac yr anfonir dolen at aelodau'r CYSAG iddynt gael mynediad i'r ddogfen.

Nodwyd fod y CYSAG eisoes wedi ymgynghori ar y Fframwaith drafft ar gyfer AG ond y bydd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach pan gyhoeddir y Fframwaith.

Adroddodd y Cadeirydd fod Libby Jones, yr Ymgynghorydd AG ar gyfer Wrecsam, wedi trefnu cyfarfod arbennig yn Wrecsam ar 26 Mawrth 2020 i GYSAGau Gogledd Cymru drafod y Fframwaith ar gyfer AG. Dywedodd y Cadeirydd bod angen cefnogaeth gan arbenigwyr sydd ag arbenigedd pwnc ar y CYSAGau i esbonio'r Fframwaith a pharatoi ymateb ar gyfer holl GYSAGau Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD bod Clerc y CYSAG yn gwahodd aelodau'r CYSAG i fynychu'r cyfarfod am 10.30yb ar 26 Mawrth 2020 yn Ysgol Clywedog,**

**Wrecsam.**

## 8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Aberaeron ar 21 Tachwedd 2019 er gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd AG am fynychu cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru.

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ni dderbyniwyd yr un enwebiad gan CYSAG Ynys Môn.

Trafododd y CYSAG gynnwys llythyrau gan Gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ynghylch AG yng Nghyfnod Allweddol 4, a'r Fframwaith AG ar gyfer 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd gan Gymdeithas CYSAGau Cymru.**

## 9. GOHEBIAETH

Roedd Mr Chris Thomas, aelod o'r CYSAG nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, wedi anfon gwybodaeth at y CYSAG am y Gwasanaeth Addysg Gatholig (CES) a Byd Olwg a Chrefyddau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Thomas am ei gyfraniad, a dywedodd ei fod wedi codi nifer o bwyntiau da.

## 10. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2020 am 2.00yp.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 yp

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**Crynodeb o weithgareddau**

Mae'r flwyddyn academaidd 2019-20 wedi bod yn un heriol. Mae'n flwyddyn ble gwelwyd ysgolion yn cau am gyfnod estynedig dros dymor yr haf ac yna yn nhymor yr hydref, yn ymateb yn barhaus i her y pandemig drwy gydbwyso cadw disgyblion mewn ysgol ac atal lledaeniad Covid-19.

Yn ogystal â hyn, cafwyd dau ymgynghoriad o bwys oedd yn cynnig newidiadau sylweddol o fewn y maes Addysg Grefyddol a hefyd i weithdrefnau CYSAGau Cymru.

Yn fras, dyma grynodeb o weithgareddau ers y cyfarfod llawn diwethaf.

Cyfarfod diwethaf CYSAG 25/02 /20, cytuno byddai Panel Gweithredu yn edrych ar rhai samplau o Hunan Arfarniadau a phasio trawstoriad i Banel CYSAG.

- Cyfarfod Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion, 11/03/20, 14:00, Ystafell Ddistaw.
- Craffu ar adroddiadau HA ysgolion: Goronwy Owen, Fali, Rhoscolyn, Tywyn, Llanfawr.
- Mis Mawrth 2020, ysgolion yn cau oherwydd Covid-19.
- 28/05/20 - GH cydweithio gyda Napfre i ymateb i ymgynghoriad Crefydd, Moeseg a Gwerthoedd.
- 02/06 - Rhannu adnoddau: Cyngor i ysgolion ar Addoli ar y Cyd yn ystod y pandemig.
- 09/06 - Panel gweithredu yn ymateb i'r ymgynghoriad. Rhannu sylwadau Napfre.
- 20/07 - Panel Tasg a Gorffen. Rhithiol drwy Teams. Llythyr o anfodlonrwydd yn cael ei anfon at Llywodraeth Cymru parthed yr ymgynghoriad.
- 06/10 - Panel Napfre rhannu adnoddau. GH yn eu pasio ymlaen i ysgolion.
- Gohirio Panel Gweithredu 20/10. Athrawon dan bwysau i baratoi newidiadau cyn cyfnod clo byr .
- Helen Roberts, Prifysgol Bangor yn cytuno i ddod yn aelod o'r Panel Gweithredol CYSAG er mwyn gwirio ansawdd, monitro a chynnig arweiniad.
- Dyddiad cyfarfod newydd 12/11 Pwyllgor Gweithredol.
- Ymarfer Zoom gyda Phanel CYSAG 6/11.

This page is intentionally left blank